## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

**Dyddiad:** 1 Tachwedd 2000

**Amser:** 2.00 p.m. - 5.00 p.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## ADOLYGIAD POLISI A RHEOLAETH ARIANNOL ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD (FMPR)

### Diben

1. Ymgynghori â'r Pwyllgor ar y Cylch Gorchwyl a'r trefniadau trafod arfaethedig ar gyfer adolygiad pum mlynedd Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r Cylch Gorchwyl arfaethedig yn dibynnu ar gymeradwyaeth Gweinidogion y Cynulliad a gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor.

### Crynodeb/Argymhellion

2. Mae Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol (FMPR) Asiantaeth yr Amgylchedd ar fin dechrau. Corff ar gyfer Cymru a Lloegr yw Asiantaeth yr Amgylchedd a noddir ac a ariennir ar y cyd gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR), y Cynulliad (ar gyfer gweithgareddau'r Asiantaeth yng Nghymru) a'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF).

3. Cynhelir yr adolygiad gan dîm o fewn DETR, mewn dau gam, a bydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, seminarau allanol ac ati.

4. Mae Cylch Gorchwyl arfaethedig [Atodiad A] yr Adolygiad yn un helaeth ac mae'n rhoi'r cyfle i'r Adolygwyr wneud argymhellion i Weinidogion y Cynulliad. Disgwylir i ran o'r trefniadau ymgynghori arfaethedig ar gyfer Cam 1 o'r Adolygiad gynnwys cyflwyniad cyhoeddus yng Nghymru; bydd y tîm o DETR sy'n arwain yr Adolygiad, gan ddibynnu ar sylwadau'r pwyllgor, hefyd yn rhoi cyflwyniad i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yng Ngwanwyn 2001 ar ganfyddiadau Cam 1, yn bennaf am eu bod yn berthnasol i Gymru.

5. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor ar Gylch Gorchwyl a threfniadau trafod arfaethedig yr Adolygiad.

**Amseru**

6. Gan ddibynnu ar sylwadau'r Pwyllgor, a chymeradwyaeth Gweinidogion y Cynulliad dros Gyllid a'r Amgylchedd i'r Cylch Gorchwyl, gwneir cyflwyniad am yr Adolygiad yn y Senedd ym mis Tachwedd. Cyhoeddir y papur ymgynghori yn nes ymlaen y mis hwnnw. Y nod yw paratoi adroddiad terfynol ar Gam 1 erbyn y Pasg 2001 a chwblhau Cam 2 erbyn Haf 2001.

**Y Cefndir**

7. Unwaith bob pum mlynedd mae pob Corff Cyhoeddus Anadrannol yn destun Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol gan yr Adran neu'r Adrannau sy'n ei noddi. Mae yna drefniadau adolygu tebyg ar gyfer Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Dyma'r adolygiad cyntaf o'i fath ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd, y rhoddwyd ei chyfrifoldebau iddi ym mis Ebrill 1996. Mae tîm DETR sy'n cynnal Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol Asiantaeth yr Amgylchedd yn cydweithio'n agos â swyddogion y Cynulliad a MAFF, fel cyd-noddwyr yr Asiantaeth, i ddatblygu'r gwaith hwn.

8. Bydd yr Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol yn adolygiad sylfaenol a chynhwysfawr a gynhelir mewn dau gam fel a ganlyn:

Yn ystod **Cam 1** gofynnir cwestiynau sylfaenol ynghylch diben, swyddogaethau a threfn yr Asiantaeth. Bydd yn archwilio'r egwyddorion a ddilynwyd i sefydlu'r Asiantaeth a'r rheiny y mae'n gweithredu o'u mewn. Bydd yn adolygu'r angen am Asiantaeth o'r fath, ei rôl a'r terfynau y mae'n gweithio o'u mewn. Bydd yn ystyried y modd y noddir ac y cyllidir Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, ac a oes achos dros greu asiantaeth ar wahân ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru.

Bydd **Cam 2** yn fwy manwl a blaengar, a bydd yn ystyried effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithgarwch Asiantaeth yr Amgylchedd o fewn y terfynau a sefydlwyd yng Ngham 1.

<u>Cylch Gorchwyl Arfaethedig</u>

9. Ceir Cylch Gorchwyl arfaethedig yr Adolygiad yn Atodiad A. Mae'n 'galluogi' ac mae ei seiliau'n fwriadol eang, fel y gall yr Adolygiad ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Asiantaeth. Fe'i cyfyngir gan y dybiaeth bod polisïau'r Llywodraeth ganolog a'r Cynulliad yn dal i gydnabod pwysigrwydd ymagwedd integredig, lle bo'n briodol, i ddiogelu a chyfoethogi'r amgylchedd. Mae'r Cylch Gorchwyl yn ei gwneud yn glir y bydd yr Adolygiad yn adeiladu ar waith adolygiadau perthnasol diweddar eraill. Mae Adolygiad Pum Mlynedd presennol y Cynulliad o Gyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd yn berthnasol, a bydd y ddau dîm adolygu'n cadw mewn cysylltiad agos wrth i'w priod waith ddatblygu.

Trefniadau Trafod: Herio/Ymgynghori Allanol

10. Y bwriad yw y bydd Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol Asiantaeth yr Amgylchedd yn destun proses o herio ac ymgynghori allanol. Cyflawnir hyn drwy gyfrwng cyfarfodydd dwyochrog, ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol (sy'n para 12 wythnos), cyflwyniadau rhanbarthol, cyfweliadau ffurfiol, seminarau allanol cenedlaethol a chyfarfodydd ad hoc eraill. Mae cyflwyniad cyhoeddus yng Nghymru ar y gweill ar gyfer Ionawr 2001. Gwahoddir ystod helaeth o unigolion â diddordeb, gan gynnwys cynrychiolwyr busnes a diwydiant rheoledig, grwpiau defnyddwyr, y sector gwirfoddol, cyrff anllywodraethol, Llywodraeth Leol, Asiantaeth yr Amgylchedd a Llywodraeth Ganolog i fod yn bresennol. Cynigir bod aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn cael eu gwahodd i'r cyflwyniad yng Nghymru.

11. Yn ychwanegol, cynigir bod Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn cael y cynnig o gael cyflwyniad gan dîm DETR yr Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol yng Ngwanwyn 2001, i roi diweddariad o'r Adolygiad a dangos bod y syniadau'n datblygu mewn perthynas â materion Cymreig yng ngoleuni Cam 1 o'r Adolygiad.

**Ystyriaeth**

12. Mae'n debyg bod Cylch Gorchwyl yr Adolygiad yn ymddangos fel petai ei seiliau'n ddigon eang i ganiatáu ystyriaeth o'r dimensiwn Cymreig, gan gynnwys y cwestiwn o gael asiantaeth ar wahân i Gymru. Mae gan y Cynulliad ddiddordeb clir yn yr adolygiad fel cyd-noddwr a darparwr cyllid ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae'r Cylch Gorchwyl yn ei gwneud yn ofynnol bod argymhellion yr Adolygiad yn cael eu cyflwyno gerbron Gweinidogion y Cynulliad a Whitehall. Mae'r cysylltiadau hefyd yn cael eu gwneud ag adolygiadau perthnasol eraill, ac, fel a nodwyd, cedwir mewn cysylltiad agos â'r rheiny sy'n cynnal adolygiad y Cynulliad o Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

13. Ymddengys bod trefniadau trafod yr Adolygiad yn rhoi ystyriaeth ddigonol i fuddiannau Cymreig sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad, a buddiannau allanol i Gymru, drwy gyfrwng y cyflwyniad arfaethedig i Gymru a'r adroddiad yn ôl i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.

**Cydymffurfedd**

14. Mae Canllawiau'r Cynulliad ar gyfer Adolygiadau Pum Mlynedd o Gyrff Cyhoeddus a Noddir yn Weithredol yn darparu ar gyfer ymgynghori â'r pwyllgor pwnc perthnasol cyn y cytunir ar y cylch gorchwyl terfynol ar gyfer adolygiad. O ystyried rôl y Cynulliad wrth noddi ac ariannu gweithgareddau Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, mae ymgynghoriad tebyg ynghylch cylch gorchwyl yr Adolygiad hwn yn cael ei ystyried o fod yn briodol.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

15. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y Cylch Gorchwyl arfaethedig a'r trefniadau trafod ar gyfer Adolygiad Polisi a Rheolaeth Ariannol Asiantaeth yr Amgylchedd.

**Man Cyswllt**

Is-adran yr Amgylchedd 1

**Atodiad A**

CYLCH GORCHWYL ARFAETHEDIG

"Archwilio prif swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr a Chymru a'r gorchwylion allweddol yr ymgymerir â hwy i'w hymarfer. Bydd yr Adolygiad yn asesu:

- pa mor angenrheidiol yw swyddogaethau'r Asiantaeth ar gyfer cyflawni amcanion y Llywodraeth a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiogelu a chyfoethogi'r amgylchedd yn unol â'u hymrwymiad cyffredinol i ddatblygu cynaliadwy;

- ai'r Asiantaeth yw'r corff priodol o hyd i ymarfer y swyddogaethau hynny;

- y dewisiadau ar gyfer gwella'r ffordd yr ymarferir swyddogaethau'r Asiantaeth;

a bydd yn gwneud argymhellion i Weinidogion a Gweinidogion y Cynulliad.

Caiff yr Adolygiad ei seilio ar adolygiadau ac ymholiadau perthnasol diweddar, gan gynnwys adroddiadau diweddar y Pwyllgor Dethol ar Asiantaeth yr Amgylchedd a Deddfwriaeth Amgylcheddol a Ffermio, ac ar yr adolygiad parhaus o'r ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar yr Asiantaeth.

Bydd yr Adolygiad yn seiliedig ar y dybiaeth fod polisïau'r Llywodraeth yn dal i gydnabod pwysigrwydd ymagwedd integredig, lle bo'n briodol, tuag at ddiogelu a chyfoethogi'r amgylchedd."